# Gwybod Be' 'di Be'

## Addysg Atal Niwed Hapchwarae a Gamblo Cymru

Llyfryn Gweithdy Cyfranogwyr

City & Guilds ASSURED

ASDAN Customised Accreditation 2017/2018

© YGAM 2020. ALL RIGHTS RESERVED



> “Bydd y llyfryn hwn a’r adnoddau ar-lein yn fy helpu i ryngweithio’n ystyrlon â phobl ifanc i archwiliorisg a grymuso pobl ifanc i wneud dewisiadau gwybodus.”
>
> —GYFRANOGWR O GAERDYDD

# Croeso!

Diolch am fynychu gweithdy YGAM. Nod y llyfryn yma yw eich helpu chi i hysbysu, addysgu a diogelu'r bobl ifanc rydych yn gweithio gyda nhw, gan eu galluogi i fagu cydnerthedd a deall y niwed posibl mae hapchwarae a gamblo'n eu hachosi.

Caiff unrhyw un sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc (7-25 oed) ddefnyddio'r llyfryn hwn a'r adnoddau ar-lein cysylltiedig sydd wedi cael eu datblygu gan ymarferwyr proffesiynol.

## Arweiniad i ddefnyddio'r llyfr yma

Rydyn ni'n cynnig dull **dewis a chymysgu** lle cewch chi ddewis o ddetholiad o heriau sy'n gallu cael eu hymgorffori yn eich rhaglen. Rydyn ni wedi darparu 30 tasg fyrrach ond effeithiol a 30 tasg gyfoethocach sy'n gofyn am lefelau uwch o gymhwysiad gan y dysgwr.

Mae llawer o'r heriau yn gallu cael eu mapio i'r **Sgiliau Allweddol Ehangach ar Lefelau 1, 2 a 3 – Gweithio gydag Eraill a Pherfformiad, Gwella Eich Dysgu Eich Hun a Datrys Problemau.**

I athrawon, mae'r heriau yn cynnig cyfleoedd am **ddysgu trawsgwricwlaidd** hefyd.

Trwy gydol y llyfr, mae gan ein gwahanol heriau liwiau cod i gyd-fynd â setiau sgiliau penodol. Gweler y canllaw isod am sut mae hyn yn gweithio:

| COCH | GLAS | GWYRDD | OREN | MELYN |
|---|---|---|---|---|
| Arweinydd-iaeth a Gwaith Tîm | Dysgu a Rhannu | Meddwl Creadigolac Archwilio | Ymchwil a Chyflwyno | Paratoi a Thrafod |

Mae'r heriau hyn dan eu lliwiau cod ar gael ar ddwy lefel ddysgu wahanol, sef:

### Heriau Byr Effaith Uchel

Tasgau byr, effaith uchel ydy'r rhain, sy'n gallu cael eu cwblhau mewn un i ddwy awr ac yn gyflwyniad perffaith i'r pwnc. Gallwch chi weld y rhain i gyd yn y tabl cynnwys ar y dde.

### Heriau Fanylach

Mae'r rhain yn tasgau hwy y byddwch efallai'n dymuno eu cyflwyno fel rhan o brosiect dros sawl diwrnod neu dymor, wedi eu dylunio ar lefel uwch i atgyfnerthu dysgu'n gyson a'i sefydlu'n barhaus. Gallwch weld y rhain i gyd yn y tabl cynnwys ar y dde

**Mae'r llawlyfr hwn dan Hawlfraint i YGAM 2020.** Cedwir pob hawl. Ni chewch atgynhyrchu, storio mewn system adalw, na throsglwyddo, ar unrhyw ffurf neudrwy unrhyw ddull, (electronig, mecanyddol, llungopïo, recordio nac fel arall) unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn heb ganiatâd blaenorol y Young Gamers and Gamblers Education Trust. Ni ddylai unrhyw incwm gael ei gynhyrchu o'r llawlyfr hwn na mynychu ein gweithda

# Tabl Cynnwys

## GWEITHGAREDDAU YGAM: Heriau Byr Effaith Uchel


Pam mae Pobl yn Gamblo/Hapchwarae.................... 8
Tebygolrwydd a Lwc.................... 9
Y Diwydiant Gamblo.................... 10
Y Diwydiant Hapchwarae.................... 11
Arian a Dyled.................... 12
Caethiwed ac Iechyd Meddwl.................... 13


## GWEITHGAREDDAU YGAM: Heriau Manylach


Pam mae Pobl yn Gamblo/Hapchwarae.................... 16
Tebygolrwydd a Lwc.................... 17
Y Diwydiant Gamblo.................... 18
The Gaming Industry.................... 19
Arian a Dyled.................... 20
Caethiwed ac Iechyd Meddwl.................... 21


## Cwricwlwm a Heriau i Ysgolion Cynradd


Gweithgareddau Myfyrwyr.................... 26
Pwyntiau Trafod.................... 27


## Adnoddau i Rieni a Gofalwyr


Ffocws ar Ysgolion/Rhieni.................... 30
Gweithgareddau i'r Teulu.................... 31


## Bodloni Gofynion Estyn


Datblygiad, Lles ac Ymddygiad Personol.................... 34


## Egwyddorion Addysg ABCh Effeithiol


Bodloni'r Egwyddorion.................... 38


## Canllawiau i Athrawon ac Ymarferwyr


Ynghylch ein Cwricwlwm.................... 42


## Arwyddbostio a Chymorth


Ble i gael cymorth.................... 43


## FDEWCH O HYD I'N HOLL ADNODDAU AR-LEIN YN **ygam.org**

Nawr eich bod wedi mynychu gweithdy YGAM, cewch eich manylion mewngofnodi unigryw eich hun er mwyn i chi allu cyrchu ein holl adnoddau ar-lein. Ar y dudalen hafan yn ygam.org, cliciwch ar "**YGAM Resources"** a gofynnir i chi fewngofnodi. Wedi gwneud hynny, byddwch yn gallu cyrchu casgliad o adnoddau addysgu gwahanol a fydd yn gadael i chi gyflwyno rhaglen YGAM yn llwyddiannus yn eich sefydliad chi.

Os cewch chi unryw broblemau wrth fewngofnodi, cysylltwch â ni yn **training@ygam.org**



# Heriau Byr Effaith Uchel



## Her 1.1:


Fel grŵ p crëwch a datblygwch brosiect ymwybyddiaeth byr am pam mae pobl yn chwarae gemau electronig a/neu'n gamblo gyda ffocws ar eich canolfan chi. Beth yw'r risgiau posibl? Crëwch ddeunyddiau cyhoeddusrwydd neu fideo byr.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Ieithoedd a Llythrennedd,Gwyddoniaeth a Thechnoleg

## Her 1.2:

Ystyriwch gymhellion pobl ifanc sy'n hapchwarae neu'n gamblo a'r risgiau posib dan sylw. Cynhaliwch gyfres o gyfweliadau neu holiadur i edrych ar gymhellion eich dosbarth/ysgol/grŵp ieuenctid chi. Crëwch ddeunyddiau dysgu i ddangos eich canfyddiadau.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABhH, Ieithoedd a Llythrennedd, Iechyd a lles





## Her 1.3:


Crëwch daflen sy'n canolbwyntio ar pam mae pobl yn gamblo a/neu'n hapchwarae. Gallech chi edrych ar feysydd gwahanol gamblo a/neu hapchwarae. Rhowch wybodaeth a fydd yn hysbysu, yn addysgu ac yn diogelu pobl ifanc am hyn.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Ieithoedd a Llythrennedd, Celfyddydau Mynegiannol

## Her 1.4:

Dyluniwch holiadur i ddarganfod pam mae rhai pobl ifanc yn dechrau gamblo a/neu hapchwarae ac a ydy'n broblem arwyddocaol yn eich canolfan, ysgol neu goleg chi. Casglwch ddata ac ystadegau a lluniwch adroddiad ysgrifenedig neu lafar ar y canfyddiadau.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Ieithoedd a Llythrennedd, Mathemateg a Rhifedd





## Her 1.5:

Pam ydy pobl ifanc yn chwarae gemau fideo? Beth ydy'r manteision ac anfanteision a sut allan nhw gydbsywo eu hamser? Cynhyrchwch arddangosfa wal neu daflen wybodaeth i ddangos eich canfyddiadau.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Ieithoedd a Llythrennedd, Iechyd a lles


© YGAM 2020

# Heriau Byr Effaith Uchel: Tebygolrwydd a Lwc

## Her 2.1:

Fel grŵp, dyfeisiwch brosiect o gwmpas syniadau tebygolrwydd a lwc. Triniwch y prosiect fel ymchwiliad neu arbrawf byr i brofi hypothesis. Cofnodwch eich atebion, dadansoddi'r data a chyhoeddi'ch canfyddiadau mewn adroddiad sy'n gallu cael ei rannu.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Ieithoedd a Llythrennedd, Mathemateg a Rhifedd

## Her 2.2:

Dysgwch am reolau tebygolrwydd a chreu cynllun gwers am athro/athrawes neu diwtor sy'n helpu i fynegi'r egwyddorion sylfaenol i ddysgwyr iau, fel rhan o broses Mathemateg. Ceisiwch wneud eich gwers yn wreiddiol ac yn ddiddorol.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Mathemateg a Rhifedd

## Her 2.3:

Dyluniwch gêm cardiau neu cynhaliwch dafliad ceiniog i brofi rheolau tebygolrwydd. Cofnodwch y rheolau chwarae a dadansoddwch ods gwahanol ganlyniadau o fewn y gêm.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Mathemateg a Rhifedd

## Her 2.4:

Mae'n cael ei ddweud yn aml mai'r 'Tŷ sydd bob amser yn ennill' mewn gamblo. Ond beth mae hynny'n ei olygu mewn gwirionedd? Crëwch gyflwyniad digidol i'w rannu â gweddill eich grŵp.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Mathemateg a Rhifedd, Iaith a Llythrenendd

## Her 2.5:

Darganfyddwch beth yw tebygolrwydd ennill eitem chwenychedig mewn gêm sy'n cael ei chwarae gan eich cyfoedion. Beth ydy'r tebygolrwydd y byddan nhw'n ennill yr eitem a faint fydd angen iddyn nhw ei wario o bosib?

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Ieithoedd a Llythrennedd, Mathemateg a Rhifedd


© YGAM 2020



## Her 3.1:


Fel grŵp, paratowch daflen neu boster sy'n edrych ar y risgiau posibl i bobl ifanc o fewn y farchnad gamblo. Trafodwch eich cynnwys fel grŵp a phenderfynwch ar y ffordd orau o gyflwyno'r wybodaeth yma.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Ieithoedd a Llythrennedd, Celfyddydau Mynegiannol

## Her 3.2:

Mae pobl ifanc wedi adrodd gweld hysbysebion gamblo yn y gemau maen nhw'n eu chwarae a'r cynnwys maen nhw'n ei wylio. Trafodwch effaith hyn arnoch chi a'ch cyfoedion.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Mathemateg a Rhifedd, Gwyddoniaeth a Thechnoleg





## Her 3.3:


Sut mae hysbysebion gamblo yn gweithio? Ymchwiliwch i sawl brand blaenllaw a dysgwch am y prosesau dan sylw. Sut mae pethau wedi newid dros amser? Rhannwch eich canfyddiadau gan ddefnyddio ffotograffau a/neu ddiagramau.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Celfyddydau Mynegiannol, Mathemateg a Rhifedd, Gwyddoniaeth a Thechnoleg

## Her 3.4:

Pwy sy'n gyfrifol am ddiogelu pobl mewn perthynas â gamblo? Ystyriwch y diwydiant gamblo, yr Asiantaeth Safonau Hysbysebu, yr unigolyn, y teulu, y gymuned. Pwy arall allai chwarae rôl hanfodol? Beth am greu poster diogelu neu gynnal trafodaeth grŵp am ble mae'r cyfrifoldeb yn syrthio.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Ieithoedd a Llythrennedd, Mathemateg a Rhifedd





## Her 3.5:

Sut mae'r rhyngrwyd wedi newid ein barn ni am y diwydiant gamblo? Sut mae wedi newid y ffordd mae pobl yn gamblo? Ymchwiliwch i safbwynt nifer o ffynonellau priodol. Gwnewch ffilm fer i'w rhannu ag eraill.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Celfyddydau Mynegiannol



© YGAM 2020

# Heriau Byr Effaith Uchel: Y Diwydiant Hapchwarae

## Her 4.1:

Sut mae Cyfryngau Cymdeithasol yn cael eu defnyddio i ddylanwadu ar agweddau ac ymddygiadau mewn perthynas â hapchwarae? Rhannwch eich canfyddiadau.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Ieithoedd a Llythrennedd

## Her 4.2:

Faint ydy'r diwydiant hapchwarae yn gwario ar hysbysebu? Pa ddullliau sy'n cael eu defnyddio i sicrhau bod chwaraewyr yn parhau i brynu'r teitlau/eitemau diweddaraf?

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Dyniaethau

## Her 4.3:

Dyfeisiwch/crëwch syniad am gêm ddiogel neu ddi-dâl a fydd yn ddeniadol i bobl ifanc. Meddyliwch am agweddau ar ddiogelwch ac ymddygiad cyfrifol yn eich dyluniad.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Gwyddoniaeth a Thechnoleg

## Her 4.4:

Dyfeisiwch arolwg, gan ganolbwyntio ar y gemau mae pobl ifanc yn eu chwarae. Faint o amser ydyn nhw'n treulio ar y gemau yma? Ydyn nhw'n talu i chwarae? Cyflwynwch y canfyddiadau.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Ieithoedd a Llythrennedd, Mathemateg a Rhifedd

## Her 4.5:

Mae hapchwarae yn weithgarwch cymdeithasgar a chynhwysol heb unrhyw risg. Trafodwch.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Ieithoedd a Llythrennedd, Gwyddoniaeth a Thechnoleg


© YGAM 2020

# Heriau Byr Effaith Uchel: Arian a Dyled



## Her 5.1:


Ysgrifennwch a pherfformiwch ddrama pum munud am ddyled sy'n codi o ganlyniad i broblemau gamblo i berson ifanc neu bobl ifanc. Gallwch chi seilio hyn ar faterion arian a dyled neu broblemau ariannol priodol eraill.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Dyniaethau, Ieithoedd a Llythrennedd, Celfyddydau Mynegiannol

## Her 5.2:

Crëwch restr o eiriau sy'n canolbwyntuio ar agweddau allweddol arian a dyled. Defnyddiwch y rhyngrwyd neu ffynhonnell arall i lunio rhestr o 25 gair allweddol. Esboniwch eich rhestr i bartner gan ddefnyddio'ch dealltwriaeth a'ch diffiniadau eich hun.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Ieithoedd a Llythrennedd, Gwyddoniaeth a Thechnoleg





## Her 5.3:


Ystyriwch y swm cyfartalog o arian sy'n cael ei wario ar gamblo gan bobl ifanc 11-16 oed. Sut arall allai'r arian hwn gael ei wario? Gosodwch gynllun ariannol tymor byr a thymor hir i'ch hunan.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Mathemateg a Rhifedd

## Her 5.4:

Beth ydy risgiau uniongyrchol mynd i ddyled? Sut allwch chi amddiffyn eich hunan a sut mae pobl eraill yn gallu helpu?

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Iechyd a lles





## Her 5.5:

Sut fyddai dyled hapchwarae neu gamblo yn effeithio ar eich dyheadau am eich bywyd yn y dyfodol? Bydd angen i chi ystyried yr heriau a'r cyfyngiadau sy'n gallu codi o ddyled. Ceisiwch gysylltu'r rhain â'ch nodau a'ch dyheadau eich hun.
Gallech chi ystyried cyflogaeth, prynu car neu brynu tŷ .

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Ieithoedd a Llythrennedd, Mathemateg a Rhifedd



© YGAM 2020

# Heriau Byr Effaith Uchel: Caethiwed ac Iechyd Meddwl





## Her 6.1:


Ymchwiliwch i broblemau iechyd meddwl mewn perthynas â hapchwarae a gamblo i wneud fideo sy'n pwysleisio'r prif ystyriaethau ac yn nodi ble mae pobl yn gallu mynd i gael help.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Mathemateg a Rhifedd, Gwyddoniaeth a Thechnoleg

## Her 6.2:

Dewiswch 10 delwedd rydych chi'n eu cysylltu â chaethiwed i hapchwarae a/neu gamblo, problemau iechyd meddwl a phroblemau cymdeithasol. Crëwch gludwaith a rhannwch eich meddyliau, defnyddiwch allweddeiriau i ategu'ch delweddau.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Ieithoedd a Llythrennedd, Celfyddydau Mynegiannol





## Her 6.3:


Dyluniwch ymgyrch ymwybyddiaeth am sut i sylwi ar arwyddion caethiwe hapchwarae a/neu gamblo. Gallai hyn amrywio o boster syml i lyfryn neu gyflwyniad mwy sylweddol. Crëwch slogan, delwedd a neges sy'n fwyaf defnyddiol yn eich barn chi.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Celfyddydau Mynegiannol, Ieithoedd a Llythrennedd

## Her 6.4:

Diffiniwch gaethiwed. Pam allai person ifanc ddatblygu ymddygiadau caethiwus sy'n gysylltiedig â chaethiwed i hapchwarae a/neu gamblo? Sut mae'n effeithio ar wahanol agweddau ar iechyd?
Ymchwiliwch i'r meysydd hyn a dewch o hyd i astudiaeth achos i gefnogi'ch canfyddiadau.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Ieithoedd a Llythrennedd





## Her 6.5:

Pa fesurau sydd ar waith ar hyn o bryd i amddiffyn pobl rhag niwed sy'n gysylltiedig â gamblo a/neu hapchwarae? Crëwch becyn cymorth mae pobl ifanc yn gallu ei gyrchu i gael help ac arweiniad. Efallai byddwch chi'n dymuno creu fideo neu ysgrifennu erthygl am bapur newydd/ newyddlen yr ysgol.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Ieithoedd a Llythrennedd


© YGAM 2020



> *"Roedd yr hyfforddiant yn addysgiadol ac yn berthnasol iawn, cynhaliodd fy niddordeb a dymuniad ddysgu mwy."*
>
> — CYFRANOGWR O SIR DDINBYCH

# Heriau Manylach



## Her 1.6:


Fel grŵp rheolwch gyfres o ddigwyddiadau a darparwch wybodaeth, a fydd yn golygu y caiff eich prosiect yr effaith fwyaf yn eich ysgol, canolfan neu goleg.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Dyniaethau, Ieithoedd a Llythrennedd

## Her 1.7:

Cynhyrchwch lawlyfr gyda gwybodaeth am sefydliadau sy'n delio ag atal niwed sy'n gysylltiedig â gamblo a hapchwarae a sefydliadau eraill sy'n helpu'r sawl sydd wedi dioddef niwed yn barod. Defnyddiwch luniau a ffotograffau i gyfleu eich neges.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Celfyddydau Mynegiannol, Ieithoedd a Llythrennedd, Gwyddoniaeth a Thechnoleg





## Her 1.8:


Crëwch ddarn o gelfwaith o dan y teitl 'Pam mae Pobl yn Gamblo' neu 'Pam mae Pobl yn Hapchwarae' 'a'r potensial am niwed'. Amlygwch gymhellion y bobl sy'n cymryd rhan, a'r risgiau posibl dan sylw. Rhannwch eich gwaith ac esboniwch eich rhesymeg.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Celfyddydau Mynegiannol, Ieithoedd a Llythrennedd

## Her 1.9:

Mae llawer o bobl yn dewis peidio â gamblo. Cynhaliwch ymchwiliad i edrych ar pam fyddai pobl efallai'n optio allan. Gallech chi ystyried crefydd, diwylliant, y posibilrwydd ay o niwed, profiadau o niwed yn y gorffennol. Cyflwynwch eich canfyddiadau.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Dyniaethau





## Her 1.10:

Gwahoddwch groestoriad o siaradwyr o gyrff sy'n delio ag ymddygiadau caethiwus. Dylai hyn gael ei wneud dros nifer o wythnosau a bydd yn cynnwys ymchwilio, bwcio a materion logistaidd i aelodau'r grŵp. Ar ôl hynny, cymerwch ran mewn sesiwn holi ac ateb neu drafodaeth grŵp.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Dyniaethau, Iechyd a lles



© YGAM 2020

# Heriau Manylach: Tebygolrwydd a Lwc



## Her 2.6:


Gwnewch ffilm am 'lwc', 'tebygolrwydd' a 'chynhyrchwyr rifau ar hap'. Ystyriwch sut mae'r rhain yn cael eu defnyddio gan y diwydiant gamblo. Rhannwch eich canfyddiadau.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Mathemateg a Rhifedd, Gwyddoniaeth a Thechnoleg

## Her 2.7:

Ymchwiliwch i'r ods sy'n gysylltiedig â maes penodol gamblo. Byddech chi efallai am ddewis betio ar chwaraeon, cardiau crafu, peiriannau ffrwythau, rasio ceffylau neu faes o'ch dewis chi. Cynhyrchwch PowerPoint gyda thystiolaeth o'ch canfyddiadau. Ystyriwch a ydy'ch canfyddiadau'n gwneud math penodol o gamblo yn fwy neu'n llai deniadol (ac o bosib niweidiol) nag un arall.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Mathemateg a Rhifedd, Gwyddoniaeth a Thechnoleg





## Her 2.8:

Ymchwiliwch i gêm sy'n boblogaidd gyda'ch dosbarth chi. Edrychwch ar debygolrwydd prynu eitem/chwaraewr arbennig. Pa mor debygol ydych chi o gael 'eitem eich breuddwydion'? Crëwch ddalen wybodaeth i ddweud wrth chwaraewyr am y tebygolrwydd y byddan nhw'n ennill yr eitem ddymunol.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Mathemateg a Rhifedd

## Her 2.9:

Ydy pobl wir yn deall 'yr ods'? Byddech chi'n gallu cysylltu hyn â hapchwarae ac â gamblo. Paratowch gyflwyniad 15-munud i'w rannu gyda'ch dosbarth.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Mathemateg a Rhifedd, Ieithoedd a Llythrennedd





## Her 2.10:

Y siawns o ennill jacpot Loteri Genedlaethol y DU ydy: 1:45Miliwn. Crëwch arddangosfa i ddangos tebygolrwydd pethau eraill yn digwydd. Beth am ystyried pethau fel: ennill Oscar, ennill medel Olympaidd, torri record byd Guinness.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Mathemateg a Rhifedd, Celfyddydau Mynegiannol


© YGAM 2020

# Heriau Manylach: Y Diwydiant Gamblo

## Her 3.6:

Gweithiwch fel grŵp i greu newyddlen sy'n amlinellu peryglon posibl gamblo i bobl ifanc. Cynhwyswch adroddiadau ffeithiol cyfoes, astudiaethau achos a deunydd priodol arall.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Ieithoedd a Llythrennedd, Gwyddoniaeth a Thechnoleg

## Her 3.7:

Sut a phryd wnaeth gamblo ddechrau? Cynhyrchwch siart llif i amlygu eiliadau allweddol. Nodwch ac ymchwiliwch i ddigwyddiad rydych chi'n meddwl ei fod yn arwyddocaol i esblygiad gamblo.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Dyniaethau, Ieithoedd a Llythrennedd, Gwyddoniaeth a Thechnoleg

## Her 3.8:

Ydy ffurfiau newydd o gamblo yn codi? Fyddwn ni'n prynu mwy? Beth fydd y peth mawr nesaf? Ymchwiliwch i'r sefyllfa bresennol ac awgrymwch beth fydd yn digwydd yn y dyfodol. Cynhyrchwch adroddiad o'ch canfyddiadau a'ch rhagfynegiadau.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Ieithoedd a Llythrennedd, Gwyddoniaeth a Thechnoleg

## Her 3.9:

Ble mae'r holl arian o gamblo yn mynd mewn gwirionedd? Cynhaliwch ymchwil i beth sy'n digwydd i rywfaint neu'r holl arian sy'n cael ei wario yn y diwydiant gamblo a dadansoddwch y data a'r ystadegau. Dewch i rai casgliadau a'u cofnodi nhw'n briodol.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Mathemateg a Rhifedd, Ieithoedd a Llythrennedd

## Her 3.10:

Mae rhai mathau o gamblo yn fwy derbyniol nag eraill. Trafodwch.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Ieithoedd a Llythrennedd, Mathemateg a Rhifedd


© YGAM 2020

# Heriau Manylach: Y Diwydiant Hapchwarae

## Her 4.6:

Cynhyrchwch ffilm ddogfen neu lyfryn am y gwahanol fathau o gemau fideo, gan edrych ar ganlyniadau dreulio gormod o amser neu wario gormod o arian.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Ieithoedd a Llythrennedd, Gwyddoniaeth a Thechnoleg

## Her 4.7:

Ymchwiliwch i hanes hapchwarae ac edrychwch ar sut mae rhai nodweddion yn annog pobl i chwarae am fwy o amser a gwario mwy o arian. Beth ydych chi'n meddwl fydd dyfodol hapchwarae? Cyflwynwch eich canfyddiadau.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Dyniaethau, Gwyddoniaeth a Thechnoleg

## Her 4.8:

Cynhyrchwch ddarn o gelf, ysgrifennwch gerdd neu cyfansoddwch ddarn o fiwsig wedi ei ysbrydoli gan y teitl 'Cadwch hapchwarae yn hwyl neu...' Esboniwch yr ysbrydoliaeth tu ôl i'ch gwaith.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Celfyddydau Mynegiannol, Ieithoedd a Llythrennedd

## Her 4.9:

Pa wahanol fathau o feicro drafodion allwn ni eu gwneud mewn gemau? Oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â'r pryniadau yma? Ydyn nhw'n gwneud gemau'n fwy neu'n llai deniadol? Cyflwynwch eich canfyddiadau.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Celfyddydau Mynegiannol, Gwyddoniaeth a Thechnoleg

## Her 4.10:

Ydy "Esports" yn ddewis gyrfa positif? Ymchwiliwch i'r cyfleoedd mae'r diwydiant yn eu cynnig a'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig ag ef a thrafodwch nhw. Os yw'n bosib, cynhwyswch y gymuned ehangach yn y drafodaeth.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Ieithoedd a Llythrennedd, Gwyddoniaeth a Thechnoleg


© YGAM 2020

# Heriau Manylach: Arian a Dyled

## Her 5.6:

Crëwch gêm bwrdd sy'n seiliedig ar beryglon colli arian ar hapchwarae a/neu gamblo. Chwaraewch eich gêm gyda phobl eraill i brofi ei llwyddiant.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Mathemateg a Rhifedd

## Her 5.7:

Cyfwelwch neu ymchwiliwch i nifer o bobl ifanc (sy'n gallu aros yn ddi-enw) gan ganolbwyntio ar y ddyled maen nhw wedi ei chronni o ganlyniad i hapchwarae a/neu gamblo. Trafodwch ba wersi sy'n gallu cael eu dysgu a rhannwch eich canfyddiadau.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Ieithoedd a Llythrennedd

## Her 5.8:

Dylai chwarae'r farchnad stoc gael ei ystyried yn fath o gamblo? Casglwch ystadegau a data o'r ddau weithgaredd ac amlygwch y prif wahaniaethau a'r tebygrwyddau. Rhannwch eich canfyddiadau.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Dyniaethau, Mathemateg a Rhifedd

## Her 5.9:

Ymchwiliwch i beth sy'n digwydd pan fydd pobl yn mynd i ddyled. Edrychwch ar gamau gwahanol dyled a'r canlyniadau. Defnyddiwch chwarae rôl i gyflwyno'ch canfyddiadau.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Mathemateg a Rhifedd, Iechyd a lles

## Her 5.10:

Pa fesurau sydd yn eu lle i amddiffyn pobl rhag gwario mwy nag maen nhw'n gallu fforddio ar gynhyrchion gemau neu gamblo? Ymchwiliwch i'r pwnc yma a rhannwch eich canfyddiadau. Fell grŵp byddwch chi efallai'n dymuno trafod a oes mwy o waith i'w wneud i amddiffyn pobl ifanc a phobl hawdd eu niweidio.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Mathemateg a Rhifedd


© YGAM 2020

# Heriau Manylach: Caethiwed ac Iechyd meddwl



## Her 6.6:


Fel grŵp, cynhyrchwch ap neu ddangosydd arall sy'n gallu rhybuddio am broblemau iechyd neu ymddygiadau caethiwus sy'n gysylltiedig â gamblo a/neu hapchwarae gan bobl ifanc.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Gwyddoniaeth a Thechnoleg

## Her 6.7:

Dysgwch am broblemau iechyd sy'n gysylltiedig â gamblo a/neu hapchwarae gan bobl ifanc. Crëwch ffilm ddogfen fanwl sy'n seiliedig ar arwyddion ymddygiad caethiwus a'r problemau sy'n gysylltiedig ag ef. Rhannwch hyn gyda chynulleidfa briodol.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Gwyddoniaeth a Thechnoleg





## Her 6.8:


Dyluniwch wefan i ddangos cylch caethiwed a ffyrdd posibl o'i dorri.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Gwyddoniaeth a Thechnoleg

## Her 6.9:

Ymchwiliwch i raniad oedran a rhywedd caethiwed i gamblo a/neu hapchwarae. Defnyddiwch chwarae rôl i gyflwyno'ch canfyddiadau, a chymerwch i ystyriaeth yr effaith tu hwnt i'r unigolyn hefyd.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Dyniaethau, Mathemateg a Rhifedd





## Her 6.10:

Beth sy'n gwneud i bobl eisiau hapchwarae a/neu gamblo? Pryd mae'n dod yn broblem a beth ydy'r arwyddion? Ymchwiliwch, casglwch ddeunydd ffynhonnell, data a thystiolaeth arall i'ch helpu i gymryd rhan mewn trafodaeth y dosbarth cyfan.

Cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru: ABCh, Mathemateg a Rhifedd, Iechyd a lles


© YGAM 2020

# Cynllun Gwers

## AMCANION DYSGU

- Deall beth sy'n cael ei olygu gan niwed sy'n gysylltiedig â gamblo a hapchwarae
- Deall effaith ehangach niwed sy'n gysylltiedig â gamblo a hapchwarae
- Adnabod arwyddion niwed sy'n gysylltiedig â hapchwarae a gamblo
- Gallu adnabod sut a ble i gael help



## CANLYNIADAU DYSGU

- Rwy'n gallu diffinio niwed sy'n gysylltiedig â gamblo a hapchwarae
- Rwy'n deall effaith niwed sy'n gysylltiedig â gamblo a hapchwarae
- Rwy'n gallu adnabod arwyddion niwed sy'n gysylltiedig â gamblo a hapchwarae
- Rwy'n gwybod ble i gael help os ydw i'n poeni am fy mherthynas fy hun neu rywun arall â gamblo neu hapchwarae



## Adnoddau

| | | | |
|---|---|---|---|
| **PowerPoint**<br>'Pam ydy Pobl yn Gamblo/ Hapchwarae' | **Dalen Ddata**<br>'Pam ydy Pobl yn Gamblo/ Hapchwarae' | **Peniau/Papur** | **Dewisol**<br>Mynediad i gyfrifiaduron a'r rhyngrwyd. Camera fideo/ offer recordio |


© YGAM 2020

# Cynllun Gwers

## I Ddechrau
(20 munud i gyd)

**Beth ydy gamblo?**

Gofynnwch i'r myfyrwyr ddiffinio beth maen nhw'n ei ystyried yn gamblo. Rhannwch ddiffiniad y comisiwn gamblo.

**Geirfa gamblo**
Gweithiwch mewn parau i feddwl am eiriau byddech chi efallai'n cysylltu â gamblo a chofnodwch nhw.

**Beth sy'n cael ei olygu wrth** gamblo mwy diogel?
Pwy sy'n gyfrifol am ddiogelu defnyddwyr? Trafodwch hyn mewn parau

Cofndwch eich atebion a'u rhannu.

## Prif Weithgarwch
(30 munud i gyd)

**Pam fyddai pobl ifanc efallai'n gamblo?**

- Edrychwch ar weithgareddau mae pobl ifanc yn eu gwneud ac ystyriwch pam mae pobl ifanc yn gamblo'n rheolaidd.
- Ystyriwch hysbysebu, hygyrchedd, normau cymdeithasol a diwylliannol ac agweddau. Ydy pobl ifanc yn cael eu targedu trwy blatfformau cyfryngau cymdeithasol?
- Edrychwch ar wahanol weithgareddau gamblo ac ystyriwch pam mae'r DU yn gadael i bobl ifanc gael mynediad i rai mathau o gamblo? Ydych chi'n cytuno â hyn?
- Gallwch chi ddefnyddio'r ddalen ddata Why Might People Gamble a'r rhyngrwyd i ymchwilio. Ystyriwch pwy sydd mewn perygl o ddatblygu problemau gamblo.
- Cofnodwch eich canfyddiadau fel cyflwyniad newyddion neu yn null rhaglen ddogfen.

## Sesiwn Lawn
(10 munud i gyd)

**Beth ydyn ni wedi ei ddysgu?**

O'ch ymchwil, trafodwch pam mae pobl ifanc mewn perygl o niwed posibl o ganlyniad i gamblo?

Pa fesurau pellach allai gael eu rhoi yn eu lle i ddiogelu pobl ifanc?

**Dysgu Estynedig**

**Datblygwch y canfyddiadau i'w rhannu mewn cyflwyniad boreol.**
Crëwch an gwybodaeth sheet to inform rhieni and gofalwyr about gamblo

## Gwerthuso
Defnyddiwch y canlyniadau dysgu i fesur ac asesu effaith y wers.

**Nodiadau'r Ymarferwr a'r Camau Nesaf**


© YGAM 2020



# Cwricwlwm a Heriau i Ysgolion Cynradd

# Cwricwlwm Ysgolion Cynradd – Ffocws ar Flynyddoedd 5 a 6

**Gallech chi ddefnyddio'r pynciau trafod isod neu unrhyw rai o'r gweithgareddau ar y dudalen gyferbyn i ddechrau edrych ar hapchwarae a gamblo yn CA2. Mae'r rhain yn cydategu ein cwricwlwm cynradd sydd ar gael ar ein platfform adnoddau**

*Arweinyddiaeth a Gwaith Tîm*

*Dysgu a Rhannu*

*Meddwl yn Greadigol ac Archwilio*

*Ymchwil a Chyflwyno*

*Paratoi a Thrafod*

## Pwyntiau Trafod

**1**

- Pryd cest ti dy ddyfais electronig gyntaf?
- Beth oedd hi ac oedd unrhyw rheolaethau rhieni arni hi?
- Ydy'r rheolaethau rhieni yma wedi cael eu rhoi ar waith?
- Pwy sy'n talu am unrhyw gemau a phryniadau o fewn gêm?
- Faint wyt ti'n gwario bob mis ar hapchwarae?

**2**

- Faint o amser wyt ti'n treulio ar hapchwarae y mis?
- Faint o amser wyt ti'n treulio ar eich ffôn y mis?
- Pa sgiliau a gwybodaeth sy'n gallu cael eu datblygu drwy hapchwarae?
- Wyt ti'n cystadlu yn erbyn dy gyfoedion ar-lein?
- Wyt ti'n cystadlu yn erbyn dieithriaid ar-lein?
- Wyt ti'n gwylio pobl eraill yn hapchwarae?




**3**

- Ble mae eich dyfais electronig yn byw gyda'r nos?
- Beth ydy dy hoff gêm?
- Oes ganddi hi bryniadau o fewn yr ap?
- Pa radd PEGI sydd ganddi hi?
- Beth fyddet ti'n gallu ei wneud yn lle hapchwarae?



© YGAM 2020

# Gweithgareddau Myfyrwyr

**Mae'r rhain wedi eu dylunio i apelio at fyfyrwyr ac athrawon ac yn gallu cael eu cwblhau mewn unrhyw drefn dros gyfnod penodedig.**

| Teitl y Gweithgaredd | Prif Gamau Actions | Sgiliau |
|---|---|---|
| **Beth sy'n Digwydd?** | Design a questionnaire to show who is doing what in my schools/class/youth group in relation to gaming. |  |
| **Hapchwarae'n Ddiogel** | Dyluniwch gêm ddiogel i fyfyrwyr eraill. Ystyriwch sut mae safleoedd hapchwarae yn cael eu dylunio a sut rydyn ni'n cael ein cadw'n ddiogel. Meddyliwch am gêm newydd gyffrous sydd hefyd yn amddiffyn y bobl sy'n chwarae. |  |
| **Ymgyrch Hapchwarae Mwy Diogel** | Run a campaign about how to stay safe when gaming. Rhedwch ymgyrch am sut i gadw'n ddiogel wrth hapchwarae. Beth ydy'r prif ystyriaethau? |  |
| **Dyddlyfr Gweithgareddau** | Cadwch ddyddlyfr o'ch gweithgarwch hapchwarae a chofnodi'ch hapchwarae dros gyfnod o bythefnos. Ystyriwch faint o amser rydych chi'n treulio'n hapchwarae o'i gymharu â gweithgareddau eraill. Rhannwch eich canfyddiadau. |  |
| **Hapchwarae – Manteision ac Anfanteision** | Casglwch ddelweddau o hapchwarae a'r allweddeiriau sy'n gysylltiedig ag ef. Crëwch ddarlun wal. |  |
| **Chwarae'r Gêm** | Crëwch ddarn bach o ddrama sy'n canolbwyntio ar hapchwarae. Ystyriwch y pethau da a drwg mewn perthynas â chyfeillgarwch, arian, iechyd a theulu. |  |
| **Cenhadaeth Fathemategol** | Fel grŵp cynhaliwch dafliad ceiniog, tafliad dis, dewis cerdyn neu arbrawf mathemateg arall i weld sut mae'r rhifau'n gweithio. Cofnodwch eich canlyniadau. |  |
| **Trafod Dyfeisiau** | Paratowch gyflwyniad boreol i'ch cyfoedion, sy'n canolbwyntio ar yr ystyriaethau wrth ddefnyddio dyfeisiau electronig. |  |
| **Perchnogaeth Hapchwarae** | Fel dosbarth ymchwiliwch i hanes hapchwarae a chreu prosiect sy'n nodi agweddau a datblygiadau allweddol. |  |
| **Cymysgu pethau i Fyny** | Beth allwn ni ei wneud yn lle hapchwarae i gydbwyso ein hamser a'n harian? Beth arall allen ni ei wneud? Crëwch ddyddiadur/rhestr o sut allech chi dreulio'ch amser. |  |


© YGAM 2020


YGAM
About Us
Workshops & Information
Parents Hub
Support Us
News
Resources
Contact Us
Free Workshops >
Help & Advice >
YGAM Resources
Below you will find a large selection of resources that relate to the information you received in the YGAM workshop and your In The Know booklet. You can filter documents by category and file type.
Search:
Filter:
Documents Categ
File Ty
Reset
Document
Documents Categories
File Types
Link
Year 10 Lesson 1 PowerPoint
KS4, Y10
PowerPoint
DOWNLOAD
KS4 Tutorial: Lesson Plans.
KS4
PDF
KS4: Tutorial Activities (4)
KS4
PowerPoint
KS4: Tutorial Activities (3)
KS4
PowerPoint
KS4: Tutorial Activities (2)
KS4
PowerPoint
KS4: Tutorial Activities (1)
KS4
KS3: Tutorial Activities (4)
KS3
KS3: Tutorial Activities (3)
KS3
Year 10 Lesson 1 PowerPoint
KS4, Y10
KS4 Tutorial: Lesson Plans.
KS4
KS4: Tutorial Activities (4)
KS4
KS4: Tutorial Activities (3)
KS4
KS4: Tutorial Activities (2)
KS4
KS4: Tutorial Activities (1)
KS3: Tutorial Activities (4)
KS3: Tutorial Activities (3)
Year 10 Lesson 1 PowerPoint

# Adnoddau i Rieni a Gofalwyr

# Adnoddau i Rieni a Gofalwyr

Yn ogystal â'r gweithgareddau isod mae gennyn ni'n Porth Rhieni sydd ar gael ar ein gwefan yn: parents.ygam.org. Yma mae llawer o adnoddau defnyddiol i rieni i'w helpu i ddiogelu eu plant.

Gall yr adnoddau yma gael eu defnyddio i roi cyflwyniad i rieni neu ofalwyr yn uniongyrchol, neu fe allai'r ysgol gynnig y PowerPoint ar-lein trwy ei gwefan neu drwy daflen.

Hefyd gall rhieni a gofalwyr eu defnyddio i gychwyn sgwrs.



## Sleid 1

- Pryd wnaethoch chi brynu'r ddyfais electronig gyntaf i'ch plentyn?
- Beth oedd hi ac oedd unrhyw reolaethau rhieni arni?
- Ydy'r rheolaethau hyn wedi eu rhoi ar waith?
- Pwy sy'n talu am unrhyw gemau ac unrhyw bryniadau o fewn gêm?
- Faint ydy'ch aelwyd chi talu y mis ar hapchwarae?

## Sleid 2

- Faint o amser ydy'ch plentyn yn treulio ar hapchwarae y mis?
- Faint o amser ydy'ch plentyn yn treulio ar ei ffôn y mis?
- Faint o amser ydych chi'n treulio ar hapchwarae y mis?
- Faint ydych chi'n gwario ar eich ffôn y mis?
- Sut mae'r ffigurau yma'n cymharu â theulueodd eraill?

## Sleid 3

- Pa sgiliau a gwybodaeth sy'n gallu cael eu datblygu trwy hapchwarae?
- Ydych chi'n treulio amser hapchwarae fel teulu?
- Ydy'ch plentyn yn cystadlu yn erbyn cyfoedion?
- Ydy'ch plentyn yn cystadlu yn erbyn dieithriaid arlein
- Ydy'ch plentyn yn gwylio pobl eraill yn hapchwarae?

## Sleid 4

- Os oes gan eich plentyn ddyfais electronig, ble mae wedi ei lleoli?
- Beth ydy hoff gêm eich plentyn?
- Oes gan y gêm bryniadau o fewn yr ap? Beth yw'r radd PEGI?
- Beth allai'ch plentyn fod yn ei wneud yn lle?




© YGAM 2020

# Gweithgareddau i'r Teulu - Trosolwg

| Activity Title | Main Actions |
|---|---|
| **Dyddiadur Teuluol** | Cofnodwch faint o amser rydych chi'n treulio ar unrhyw fath o gyfryngau cymdeithasol a hapchwarae. Cymharwch eich canfyddiadau chi â gweithgareddau teuluol eraill. Allwch chi ddod i unrhyw gasgliadau? |
| **Pethau Positif i Ddenu Sylw** | Beth allwn ni wneud i dreulio llai o amser yn hapchwarae? Gwnewch restr neu lyfryn i'w rannu â theuluoedd eraill o weithgareddau difyr nad ydyn nhw'n cynnwys hapchwarae. |
| **Cyfrifiannell** | Cymharwch yr amser rydych chi'n treulio ar gyfryngau cymdeithasol a hapchwarae â gweithgareddau eraill. Faint o amser byddech chi'n treulio'n hapchwarae dros eich holl fywyd? |
| **Her i'r Teulu** | Cymerwch gam fel teulu a throwch bob dyfais electronig yn eich cartref i ffwrdd. Beth arall allwch chi ei wneud yn lle? |
| **Trafodaeth Deuluol** | Dyma'r pynciau i'w trafod:<br>Beth oedd pobl yn ei wneud cyn ffonau symudol? Ydy ychydig o hapchwarae yn beth da?<br>Faint o amser alla i dreulio'n ddiogel yn hapchwarae? |
| **Her Troi Dyfais i Ffwrdd** | Sut ydyn ni'n teimlo wrh droi'r WiFi i ffwrdd? Yr Xbox? Teledu? Sut ydyn ni'n ymateb? Cadwch gofnod neu flog am brofiad eich teulu. |
| **Ein Cytundeb** | Trafodwch fel teulu derfynau synhwyrol am amser a defnydd ffonau, iPads a dyfeisiau electronig eraill. Llenwch a llofnodwch ddogfen am ymddygiadau digidol diogel. Beth allwch chi i gyd gytuno i'w wneud? |
| **Teimlo'n Well** | Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw newidiadau mewn sut rydych chi'n teimlo pan nad ydych chi'n hapchwarae neu ar-lein? Cadwch ddyddiadur am wythnos. |
| **Angen...** | Gwnewch labeli 'dwi angen...' sy'n helpu aelodau'r teulu i ddeall sut rydych chi'n teimlo am hapchwarae a beth maen nhw'n gallu gwneud i'ch cefnogi. |
| **Cwestiynau Teuluol** | Meddyliwch am rai cwestiynau am rywbeth rydych chi'n ansicr amdano ynglŷn â hapchwarae ac yna cyfnewid y cwestiynau gydag aelodau eraill y teulu i geisio dod o hyd i atebion. |


© YGAM 2020



# Bodloni Gofynion Estyn

# YGAM a'r Cwricwlwm i Gymru

## Sut mae YGAM yn gallu eich helpu i fodloni gofynion Estyn – Datblygiad, Ymddygiad a Llesiant Personol

### 01 Safonau:

Mae cwricwlwm YGAM wedi cael ei ddatblygu i sefydlu dysgu a chynnig cyfle am ddilyniant. Mae'r adnoddau yn rhoi'r cyfle i feithrin ac asesu caffael gwybodaeth a'i chymhwyso wedyn i sefyllfaoedd yn y byd go iawn. Mae'r rhaglen yn cynnwys gweithgareddu byr effaith uchel a gweithgareddau cyfoethocach i fodloni anghenion dysgu a gofynion addysgol gwahanol. Bydd myfyrwyr yn datblygu gwybodaeth am niwed posibl hapchwarae a gamblo, sy'n eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth yn y dyfodol a deall sut a ble i gael help os ydyn nhw'n poeni am eu llesiant eu hunain neu lesiant rhwyun arall.

### 02 Llesiant ac agweddau at ddysgu:

Mae'r rhaglen yn cynnig amgylchedd diogel i edrych ar ystyriaethau am hapchwarae a gamblo a'r niwed posibl, sy'n rhoi platfform i  drafod a rhannu syniadau am ddewisiadau dull o fyw, iechyd meddwl a lles. Myfyrwyr sydd wrth galon y rhaglen, sy'n hybu ymchwilio ac agweddau positif a chyfrifol tuag at ddysgu.

### 03 Profiadau Addysgu a Dysgu:

Mae ein gweithgareddau yn galluogi myfyrwyr i ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau sy'n berthnasol yn y byd go iawn. Rydyn ni'n annog cyfranogiad gan fyfyrwyr, gan adael iddyn nhw archwilio syniadau eu hunain a datblygu canlyniadau creadigol ar draws meysydd dysgu gwahanol. Mae gweithgareddau'n cefnogi datblygiad sgiliau mwy meddal hefyd sy'n galluogi myfyrwyr i ddod yn ddysgwyr hyderus.

### 04 Gofal, Cymorth ac Arweiniad:

Rydyn ni wedi datblygu cronfa gynhwysfawr o ddeunyddiau cymorth sy'n addas am wahanol arddulliau dysgu. Mae myfyrwyr yn cael eu hannog i rannu penderfyniadau am raglen astudio addas a dod yn ddysgwyr annibynnol. Nid yw'r rhaglen yn barnu neb ac mae'n cynnwys gwybodaeth am yr arwyddion i gadw llygad allan amdanyn nhw pan fydd person ifanc mewn perygl o niwed a ble i ddod o hyd i gymorth priodol.

### 05 Arweinyddiaeth a Rheoli:

Mae rhaglen YGAM yn cynnig hyfforddiant a deunyddiau â sicrwydd ansawdd i'r sawl sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc gan gynnwys arweinyddiaeth ysgol, DSLs, athrawon a mentoriaid. Mae ein holl weithgareddau ac adnoddau i bobl ifanc yn cael eu datblygu gan arbenigwyr addysg ac yn rhad ac am ddim i'w defnyddio i'r bobl sy'n ymgymryd â'n hyfforddiant.

Mae pobl ifanc yn cael y cyfle i feithrin sgiliau arweinyddiaeth trwy'r rhaglen. Mae'r adnoddau wedi eu dylunio i fod yn thematig, gan adeiladu ar ddysgu allweddol a datblygu mwy o ddealltwriaeth ynghyd â chaffael gwybodaeth.


© YGAM 2020

# Sut mae YGAM yn gallu eich helpu i fodloni gofynion Estyn:

## Iach a hapus - effaith ysgol ar iechyd a lles disgyblion

Mae cwricwlwm a heriau YGAM yn galluogi ysgolion i gynnig lefel eang, holistig o gymorth sy'n hybu trafodaethau gwybodus ar amrywiaeth ehangach o bynciau mewn amgylchedd sy'n fwy addas i nodi risg a niwed posibl.

## Mae adnoddau YGAM yn gadael i athrawon:

- Ddatblygu dull cydlynus ysgol-gyfan sy'n cefnogi iechyd a lles myfyrwyr
- Cryfhau cydberthnasoedd rhwng staff a disgyblion yn ogystal â  chyfoedion
- Gwella ansawdd profiadau addysgu a dysgu wrth ddatblygu eu dulliau o gefnogi iechyd a lles myfyrwyr
- Cymryd barn pobl ifanc ac ymchwil academaidd i ystyriaeth yn fwy wrth ddatblygu eu dulliau o gefnogi iechyd a lles
- Sicrhau bod amgylchedd a gwasanaethau'r ysgol yn cefnogi iechyd a lles myfyrwyr

Mae ein cwricwlwm addysg yn gadael i ddysgwyr feithrin sgiliau trawsgwricwlaidd; cynnig cyfleoedd sy'n datblygu eu llythrennedd, rhifedd a'u cymwyseddau digidol wrth gymryd rhan mewn tasgau ymchwil hunan-arwain a gweithgareddau hunan-fyfyriol. Bydd myfyrwyr yn cael eu hannog i wneud penderfyniadau gwybodus a datblygu lefel uwch o ddealltwriaeth o risg a niwed posibl, gan gymhwyso gwybodaeth i sefyllfaoedd go iawn.

Mae gweithgareddau a chynlluniau gwers yn cael eu mapio i gyflenwi'r chwe maes dysgu a phrofiad mewn ffordd y teimlwn y bydd yn cefnogi cwmpas eang y cwricwlwm sy'n cael ei argymell gan Estyn a Llywodraeth Cymru orau.


© YGAM 2020

# Cwricwlwm: Y Chwe Maes Dysgu a Phrofiad

Mae ein cwricwlwm addysg yn galluogi myfyrwyr i feithrin sgiliau trawsgwricwlaidd drwy gynnig cyfleoedd sy'n datblygu eu llythrennedd, rhifedd a'u cymwyseddau digidol wrth gymryd rhan mewn tasgau ymchwil hunan-arwain a gweithgareddau hunan-fyfyriol.
Rydym wedi mapio ein gweithgareddau a chynlluniau gwers i gyflenwi'r chwe maes dysgu a phrofiad mewn ffordd y teimlwn y bydd yn cefnogi cwmpas eang y cwricwlwm sy'n cael ei argymell gan Estyn a Llywodraeth Cymru orau.
Mae rhaglen addysg YGAM yn galluogi pobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau a gwybodaeth gofynnol drwy amrywiol ddulliau. Mae cyfeiriadau o fewn ein gweithgareddau i ddangos sut maen nhw'n gallu ffitio i mewn i'r chwe maes dysgu a phrofiad, sy'n gadael i arweinwyr sesiynau ddewis y gweithgaredd cywir am y sgiliau dan sylw.

## Celfyddydau Mynegiannol

Mae ein sesiynau'n cynnwys cyfleoedd am greadigedd, sy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr rannu syniadau trwy gyfrwng y celfyddydau. Deallwn bwysigrwydd mynegiant a'r celfyddydau i gaffael gwybodaeth a dealltwriaeth.

## Iechyd a Lles

Edrychwn ar risg a niwed posibl trwy lens iechyd a lles, sy'n annog myfyrwyr i ystyried pwysigrwydd iechyd cofforol a meddyliol. Mae'r holl weithgareddau a gwersi'n cael eu dylunio i helpu i ddatblygu meddwl beirniadol. Mae opsiynau arwyddbostio'n cael eu rhoi er mwyn cefnogi myfyrwyr sydd efallai'n poeni amdanyn nhw eu hunain neu bobl eraill.

## Y Dyniaethau

Mae ein gweithgareddau a chynlluniau gwers yn gadael i fyfyrwyr edrych ar effeithiau diwylliannol hapchwarae a gamblo, a'u heffaith ar bobl o gefndiroedd sosio-economaidd, crefydd a diwylliant gwahanol.

## Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Rydyn ni'n hybu cyfleoedd i fyfyrwyr fynegi eu hunain a chyfathrebu eu safbwynt a'u barn eu hunain yn effeithiol. Trwy feddwl beirniadol ac ymchwilio i gyfreithiau hapchwarae a gamblo, hysbysebion a'r effaith gymdeithasol, bydd myfyrwyr yn datblygu eu dysgu ac yn caffael gwybodaeth.

## Mathemateg a Rhifedd

Mae sgiliau mathemategol a rhifyddol yn cael eu datblygu drwy ddeall tebygolrwydd a rhesymu. Hefyd mae yna gyfle i ddatblygu cydnerthedd ariannol a digidol.

## Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae cyfle hefyd i archwilio technoleg a hygyrchedd a sut mae datblygwyr wedi ymaddasu. Trwy'r gweithgareddau a'r cynlluniau gwers, mae cyfle i fyfyrwyr ddatblygu a defnyddio sgiliau TG, gan ddatblygu llythrennedd a chymwyseddau digidol.

# Egwyddorion Addysg ABCh Effeithiol

# Sut mae cwricwlwm ' Gwybod Be' ' di Be' YGAM yn bodloni nod fframwaith ABCh

Mae Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn orfodol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru. Mae rhaglen YGAM yn adnodd i gefnogi addysgwyr i fodloni prif amcanion ABCh:

### Datblygu hunan-dyb dysgwyr ac ymdeimlad o gyfrifoldeb personol

Mae rhaglen YGAM yn rhoi cyfle i fyfyrwyr archwilio a thrafod, holi a herio mewn amgylchedd dysgu diogel a chefnogol. Mae'n hybu trafodaeth, gan alluogi myfyrwyr i wneud dewisiadau gwybodus.

### Hybu hunan-barch, parch at eraill a dathlu amrywiaeth

Mae rhaglen YGAM yn gadael i ddysgwyr edrych ar syniadau fel stigma, moeseg ac i ddod i gasgliadau mewn amgylchedd diogel a chefnogol na fydd yn eu barnu.

### Galluogi dysgwyr i fyw bywydau diogel ac iach

Mae YGAM yn cynnig cyfleoedd i drafod ac asesu risg, edrych ar ystyr cydnerthedd ac ymchwilio i wneud penderfyniadau er mwyn lleihau niwed. Mae'r adnoddau yn annog dysgwyr i fyfyrio ar ddewisiadau ffordd o fyw cytbwys a chynnig opsiynau cyfeirio os bydd myfyrwyr yn poeni am eu lles nhw neu les rhywun arall.

### Paratoi'r dysgwyr am y dewisiadau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â dysgu gydol oes

Mae gweithgareddau a chynlluniau gwers YGAM wedi eu dylunio i ganolbwyntio ar y myfyrwyr a bod yn ymchwiliadol, gan annog meddwl annibynnol gydag ymagwedd bositif at ddatrys problemau mewn cyd-destun ehangach. Mae'r rhaglen yn hyblyg, gan alluogi dysgwyr ac athrawon i gymryd rhan mewn siapio ei chynnwys a chymryd cyfrifoldeb drosti.

### Galluogi'r dysgwyr i gyfranogi yn eu hysgolion a'u cymunedau fel dinasyddion gweithgar a chyfrifol yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang

Mae'r gweithgareddau yn galluogi myfyrwyr i rannu eu dysgu â'u cyfoedion, athrawon, a'r gymund ehangach.

### Meithrin agweddau ac ymddygiad cadarnhaol tuag at egwyddorion datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang

Mae YGAM yn cynnig amgylchedd diogel i edrych ar faterion a fydd efallai'n codi ym myd oedolion ac archwilio'r risgiau posibl. Mae'n hybu gwneud penderfyniadau mwy diogel, yn rhoi gwybodaeth am arwyddion niwed yn ogystal â sicrhau bod myfyrwyr yn gwybod sut a ble i gael help.

### gysylltiedig â gwaith a bywyd oedolyn

Mae gweithgareddau YGAM yn cynnig platfform i fyfyrwyr ddatblygu sgiliau meddwl beirniadol a throsglwyddadwy, asesu risg, rhannu syniadau, ac edrych ar agweddau mewn amgylchedd diogel. Mae'r rhaglen yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr baratoi a chyflwyno eu syniadau mewn amrywiaeth o fformatau i'w cyfoedion, athrawon, a'r gymuned ehangach.


© YGAM 2020

# Sut mae rhaglen YGAM yn helpu addysgwyr i fodloni pedwar prif ddiben y Cwricwlwm i Gymru

**Mae YGAM wedi buddsoddi gofal a sylw er mwyn sicrhau bod ein hadnoddau'n berthnasol ac yn bodloni anghenion pedwar prif ddiben y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r pwyntiau sy'n dilyn yn dangos sut rydyn ni wedi cyflawni hyn:**

## Dysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau

Nod ein hadnoddau deniadol, hawdd eu sefydlu, yw hyrwyddo dysgu annibynnol a dilyniant. Mae'r adnoddau wedi eu dylunio i weithio ar draws llawer o feysydd pwnc ac yn berthnasol i bobl ifanc sy'n cael eu magu yng Nghymru heddiw.

## Cyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith

Mae adnoddau wedi cael eu llunio i hybu creadigedd, nid dim ond yn y canlyniad ond hefyd mewn ffordd sy'n annog pobl ifanc i fyfyrio ar eu dysgu a'r effaith sydd ganddo arnyn nhw ac ar y bobl o'u cwmpas. Mae gweithgareddau trawsgwricwlaidd yn cynnig llwer o gyfleoedd i fyfyrwyr baratoi ac ymarfer eu sgiliau cyflwyno.

## Dinasyddion moesegol, gwybodus Cymru a'r Byd

Mae rhaglen YGAM yn addysgu myfyrwyr am risgiau posibl hapchwarae a gamblo ac yn hyrwyddo myfyrio a gwneud penderfyniadau mwy diogel. Mae'n annog myfyrwyr i rannu eu meddyliau a'u profiadau â'i gilydd ac yn cynnwys trafodaethau i helpu i egluro safbwyntiau.


## Unigolion iach, hyderus, sy'n barod i arwain bywydau cyflawn fel aelodau gwerthfawr cymdeithas

Mae ein gweithgareddau yn helpu i alluogi gwneud penderfyniadau mwy diogel mewn perthynas â hapchwarae a gamblo i gefnogi pobl ifanc i gynnal ffordd o fyw iach a chytbwys. Mae'r adnoddau wedi eu dylunio i hybu cydnerthedd a llesiant meddwl da ac mae ein gweithgareddau'n helpu myfyrwyr i ddod yn aelodau positif o'u cymuned ac o gymdeithas ehangach.

## Bagloriaeth Cymru

Mae Rhaglen YGAM yn gallu cynnig cyfleoedd perthnasol ac amserol i fyfyrwyr ymgysylltu â Bagloriaeth Cymru. Nod ein hadnoddau a'n gweithgareddau yw gwella sgiliau hanfodol ymchwilio a meddwl.
Mae llawer o'r gweithgareddau'n rhoi ffocws ar greadigedd ac yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr brosesu ac asesu gwybodaeth cyn ystyried dulliau priodol o gyflwyno eu canfyddiadau. Teimlwn yn hyderus fod ein rhaglen drawsgwricwlaidd yn rhoi platfform i fyfyrwyr baratoi a meithrin sgiliau mae eu hangen am eu bywyd yn y dyfodol mewn addysg, gwaith a'r gymuned ehangach.


© YGAM 2020




*"Byddair ymarferion a gafodd eu dangos yn ystod y sesiwn o fudd iw defnyddio gyda phobl ifanc i ddatblygu eu hymwybyddiath o effaith gamblo a hapchwarae."*

*— MYNYCHWR O BOWYS*

# Canllawiau i Athrawon ac Ymarferwyr

# Canllawiau Cyffredinol i Athrawon ac Ymarferwyr am gwricwlwm ' Gwybod Be' ' di Be'' YGAM

**Mae'r rhaglen wedi cael ei datblygu gyda chyngor gan y PSHE Association, City & Guilds ac ASDAN Education, yn dilyn peilot ag arweinwyr ABCh, gweithwyr ieuenctid, gweithwyr proffesiynol iechyd meddwl a phobl ifanc. Nod y llyfryn hwn yw ateb rhai o'r cwestiynau allweddol sydd gennych chi.**

## Dysgu'n cael ei arwain gan fyfyrwyr ac yn delio â'u profiad

Credwn y bydd gan bobl ifanc fwy o ddiddordeb mewn rhaglen maen nhw wedi helpu i'w dylunio a bydden ni'n eich annog i rannu'r rhaglen a'r tasgau gyda nhw i adael i chi greu rhaglen astuio addas. Rydyn ni'n annog cyfranogiad gan fyfyrwyr i adael iddyn nhw archwilio syniadau a themâu i ddod o hyd i atebion creadigol.

## Cynnydd a gwahaniaethu

Mae'r rhaglen yn helpu i asesu caffael gwybodaeth ar draws CA2, 3, 4 a 5. Bydd y gweithgareddau agoriadol yn gadael i chi ennyn gwybodaeth ac felly deall gwybodaeth bresennol pobl ifanc sy'n galluogi gwahaniaethu naturiol o fewn y sesiynau seiliedig ar brofiad. Mae cyfle hefyd i fapio'r rhaglen i'r cwricwlwm ehangach.

## Datblygu sgiliau

Bydd myfyrwyr yn datblygu'r sgiliau a gwybodaeth am niwed posibl hapchwarae a gamblo sy'n gadael iddyn nhw wneud dewisiadau gwybodus. Mae pob gweithgaredd yn caniatáu datblygiad sgiliau mwy meddal, er mwyn i bobl ifanc ennill profiad o'r rhain a dod yn ddysgwyr hyderus.

## Rhaglen gydnaws â TG gydag adnoddau i'w

Mae ein deunyddiau yn gydnaws â TG ac ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan, gan gynnwys cynlluniau gwersi a'r holl adnoddau angenrheidiol i gydategu'r wers. Hefyd mae PowerPoints rhyngweithiol, golygadwy, er hwylustod i chi.

## YGAM yn diwallu elefennau Addysg ABCh

Mae'r rhaglen yn trafod pwyntiau dysgu allweddol o fewn y fframwaith ac yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr ymgysylltu â'i hamcanion a datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'u hunain a'r byd o'u cwmpas.

## Bodloni gofynion Estyn o ran diogelu a llesiant

Mae deunyddiau YGAM wedi cael eu llunio i gefnogi agweddau gorfodol y cwricwlwm a'u nod yw cefnogi athrawon i ddiwallu gofynion allweddol ar gyfer Estyn.

## Cynnig deunyddiau cymorth ac adnoddau llawn i athrawon

Rydyn ni wedi cynhyrchu ystod o ddeunyddiau hwylus i'w defnyddio. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar addysgu plant a phobl ifanc trwy gwricwlwm seiliedig ar brofiad, sy'n gadael iddyn nhw ymchwilio, astudio data a thrafod themâu allweddol. Mae hyn yn annog pobl ifanc i ddod i farn wybodus a chael dealltwriaeth gliriach o'r effaith maen nhw'n ei chael ar eu bywydau.

**Gobeithiwn fod eich myfyrwyr, pobl ifanc a chi wir yn mwynhau rhaglen YGAM!**


© YGAM 2020

# Cael Help

www.gamcare.org.uk

www.bigdeal.org.uk/

Mae'r Llinell Gymorth Gamblo Genedlaethol yn rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth cyfrinachol i unrhyw un sy'n dioddef oherwydd problem gamblo yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Gallwch chi siarad â'u Cynghorwyr dros y ffôn neu drwy sgwrsio byw bob dydd o'r flwyddyn, o 8 y bore – hanner nos. Byddan nhw'n gallu gwrando ar beth sy'n mynd ymlaen i chi, ac yn gallu dweud wrthych chi'r holl opsiynau sydd ar gael i chi am gefnogaeth yn eich ardal leol chi, ar-lein neu dros y ffôn.

**Rhadffôn:** 0808 8020 133

**Sgwrsio byw:** www.gamcare.org.uk/get-support/talk-to-us-now/

## Faint mae'n costio?

Byddwch chi'n siarad â Chynghorydd GamCare sydd wedi cael ei hyfforddi i wrando a helpu pobl sy'n dioddef o ganlyniad i broblem gamblo. Bydd y Cynghorydd yn gwrando arnoch chi'n ofalus ac yn eich annog i siarad am eich pryderon.
Weithiau mae'n gallu bod yn rhyddhad jest siarad â rhywun, ac mae'n gam cyntaf pwysig tuag at ddelio â'r broblem. Hefyd mae'r Cynghorydd yn gallu eich cysylltu chi â gwasanaethau triniaeth GamCare ledled Prydain Fawr, naill ai wyneb yn wyneb, ar-lein neu dros y ffôn.

## Pwy ydw i'n siarad â nhw?

Byddwch chi'n siarad â Chynghorydd GamCare sydd wedi cael ei hyfforddi i wrando a helpu pobl sy'n dioddef o ganlyniad i broblem gamblo. Bydd y Cynghorydd yn gwrando arnoch chi'n ofalus ac yn eich annog i siarad am eich pryderon.

Weithiau mae'n gallu bod yn rhyddhad jest siarad â rhywun, ac mae'n gam cyntaf pwysig tuag at ddelio â'r broblem. Hefyd mae'r Cynghorydd yn gallu eich cysylltu chi â gwasanaethau triniaeth GamCare ledled Prydain Fawr, naill ai wyneb yn wyneb, ar-lein neu dros y ffôn.

## Ydy e'n gyfrinachol?

Bydd unrhyw beth a ddwedwch chi rhyngoch chi a GamCare yn unig, oni bai eich bod chi'n gofyn fel arall yn ysgrifenedig. Gallwch chi deimlo'n ddiogel yn siarad â nhw, gan wybod na fyddan nhw'n pasio gwybodaeth bersonol ymlaen heb adael i chi wybod.

Ond weithiau, os ydyn nhw'n poeni am eich diogelwch, efallai y bydd angen iddyn nhw gael help i chi. Byddan nhw dim ond yn cael help neu'n cymryd camau os: (i) rydych chi'n gofyn iddyn nhw wneud; (ii) maen nhw'n credu bod eich bywyd chi, neu fywyd rhywun arall, mewn perygl; (iii) rydych chi'n cael eich brifo gan rywun mewn safle o ymddiriedaeth, fel partner, gofalwr neu ffrind neu rydych chi'n dweud wrthyn nhw eich bod chi'n niweidio rhywun arall/ pobl eraill yn ddifrifol

## Pwy ydy'r Big Deal?

Mae BigDeal yn rhan o GamCare. P'un a ydy pobl ifanc erioed wedi gamblo o'r blaen, yn hoffi gêm o pocer gyda'ch ffrindiau neu jest yn prynu ambell i gerdyn crafu, maen nhw yno i'w helpu i ddeall sut mae i gyd yn gweithio, adnabod pryd mae pethau efallai'n mynd yn broblem a rhoi cymorth os oes arnoch chi ei angen.


© YGAM 2020

# Nodiadau



© YGAM 2020

# Nodiadau


© YGAM 2020



*"Cwrs rhagorol a wnaeth fin ymwybodol or cysylltiadau ar peryglon i bobl ifanc o hapchwarae a gamblo."*

\- CYFRANOGWR O GASNEWYDD

Mae'r llawlyfr hwn dan Hawlfraint YGAM 2020

Cedwir pob hawl. Ni chewch atgynhyrchu, storio mewn system adalw, na throsglwyddo, ar unrhyw ffurf neu drwy unrhyw ddull, (electronig, mecanyddol, llungopïo, recordio nac fel arall) unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn heb ganiatâd blaenorol y Young Gamers and Gamblers Education Trust. Ni ddylai unrhyw incwm gael ei gynhyrchu o'r llawlyfr hwn na mynychu ein gweithdai

Young Gamers and Gamblers Education Trust, 71 – 75 Shelton Street, Covent Garden, London, WC2H 9JQ.

www.ygam.org | hello@ygam.org | 0203 837 4963 |

Rhif Cwmni Cofrestredig: 09189998 | Rhif Elusen Gofrestredig 1162425.

YGAMTM yw enw masnachu Young Gamers and Gamblers Education Trust a Nod Masnach cofrestredig: UK00003114184.

@YGAMuk @YGAMuk /YGAMuk